# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yn rhithiol dros Zoom
**Nos Fercher 27 Tachwedd 2024 am 7.00**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Gwilym Owen

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Einir Williams

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Huw Jones

**Cynghorwyr Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyng., Bleddyn Williams, Dyfrig Jones, Ann Williams a Michael Williams.

**2. Datgan Diddordeb**

Dim.

**3. Materion Brys**

**Clwb Ieuenctid -** Yn dilyn digwyddiad Dychmygu'r Dyfodol, derbyniwyd adroddiad gan y Cyng. Einir Williams ar beth hoffai bobl ifanc y Dyffryn weld yn newid ym Methesda dros y 10 mlynedd nesaf. Ymysg llawer o bethau eraill, hoffai'r bobl ifanc weld noson Clwb Ieuenctid yn benodol ar gyfer plant 14 oed a drosodd. Nodwyd fod Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Gwynedd am dreialu hyn am gyfnod o 3 mis o fis Ionawr. Os yw'r treial yn llwyddiannus, efallai y bydd y Cyngor mewn sefyllfa i gefnogi yn ariannol yn ddibynnol ar y costau. Cytunwyd bydd y Clerc yn holi Cyngor Gwynedd am gostau presennol y Clwb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Y Clerc hefyd i gynnwys hwn ar agenda mis Ionawr.

**4. Cofnodion**

Yn dilyn ychydig o gywiriadau, cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**

**5.1 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda'r tirfeddiannwr a chytunwyd y byddent yn creu les newydd – ar y gweill.

**5.2 Cae Chwarae Pantdreiniog -** Adroddwyd fod y Clerc wedi derbyn dau bris gwahanol am y llawr wetpour, disgwyl am un pris arall. Nodwyd fod archwiliad ROSPA yn cael ei gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf, y Clerc i ddisgwyl am adroddiad ac i weithredu yn ôl yr angen.
**5.3 Lon Newydd - Dŵr yn llifo -** Adroddwyd fod y dŵr dal i lifo. Y Clerc a'r Cynghorwyr i gysylltu â Chyngor Gwynedd eto, ac i dynnu sylw at broblemau diogelwch a fydd yn digwydd pan fydd y tywydd rhewllyd yn dychwelyd.
**5.4 Cynllun Bioamrywiaeth -** Y Clerc a'r Cyng. Catrin Wager i edrych dros y ddogfen, ac yna ei ail gyflwyno i'r Cyngor.
**5.5 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn -** Y Clerc wedi edrych ar y safle ac yn edrych am opsiynau amgen - ar y gweill.
**5.6 Ffordd rhwng Sgwâr Rachub a Hen Barc** - Nodwyd fod y Clerc wedi cysylltu gyda Sian Gwenllian AS ar y mater, ac adroddwyd fod yr aelod seneddol wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd am y mater, ac wedi derbyn yr 'run ymateb a chafwyd y Cyngor mis diwethaf. Adroddwyd bydd Sian yn hapus i godi'r mater o ragor o gyllid i wella ffyrdd gyda Ken Skates, ac fe ddoth yn ôl atom unwaith iddi hi dderbyn ymateb – ar y gweill.
**5.7 Torri Coed Ogwen Bank** - Adroddodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu at yr adran gorfodaeth a'r adran bioamrywiaeth ynglŷn â nifer fawr o goed yn cael ei thorri ar y safle - disgwyl ymateb.

**6. Adroddiad Pwyllgor Cyllid**
Cylchredwyd adroddiad cyllid a'r archeb ddrafft i holl aelodau'r Cyngor. Derbyniwyd adroddiad byr gan y Cyng. Neville Hughes, a chadarnhawyd y bydd angen pennu'r archeb yn cyfarfod mis Ionawr.

**7. Cytundeb Lefel Gwasanaeth CCTV**
Y Clerc i holi am gytundeb newydd, yna i ail gyflwyno'r ddogfen i'r Cyngor.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd nad yw'r gofrestr tir wedi'i diweddaru eto yn dilyn gwerthiant y tir. Nodwyd rhwystredigaeth y cyngor unwaith eto. Y Clerc wedi cysylltu gyda'r aelod seneddol, Claire Hughes i ofyn iddynt gysylltu â'r gofrestra tir ar ein rhan ni, dim ymateb hyd yn hyn.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2024'
**9.1** Cyngor Cymuned Llanllechid – Ystadegau Cae Rhosydd – Y Clerc i ddiolch i'r Cyngor Cymuned am y wybodaeth.
**9.2** Cyngor Cymuned Llanystumdwy – Cynnig i Gymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg – Penderfynwyd cefnogi'r cynnig.
**9.3** Cyngor Gwynedd - Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol - Cytuno mewn egwyddor, yn ddibynnol ar farn drigolion Llwyn Bedw.
**9.4** Iwan Emlyn Davies – Eiddo gwag yn ôl i ddefnydd – Nodwyd fod cais cynllunio wedi'i dderbyn i newid defnydd hen siop Blodau Hyfryd, y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.
**9.5** Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio – Cyhoeddi papurau ymgynghori – Cydnerthedd cynllunio a chadw coed – y Clerc i lunio ymateb erbyn 17 Ionawr 2024.
**9.6** Cyngor Gwynedd – Llythyr ymgynghori yn ymwneud a chynlluniau parcio – Penderfynwyd fod y Cyngor yn gwrthwynebu'r newidiadau i'r amseroedd parcio. Mae'r cyfnod rhwng 9 a 10 yn bwysig i fusnesau bach Bethesda.
**9.7** Bwletin Un Llais Cymru - Cais gan Gyngor Gwynedd i wneud 1af o Fawrth yn ŵyl y banc - penderfynwyd fod y Cyngor yn cytuno, y Clerc i ddanfon at Gadeirydd Cyngor Gwynedd, Cyng. Beca Roberts.

**11. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**

**Penderfyniadau**

**C23/0207/13/CR**

Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda

Addasiadau mewnol
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C24/0138/13/LL**

1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan

Codi annedd deuluol
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0390/13/AC**

Spar Stores Stryd Fawr, Bethesda

Diwygiad i amod 2 o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu man manwerthu a chanolfan dreftadaeth i ailddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr, er galluogi newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltaig, ac ychwanegu mwy o reiliau diogelwch.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0452/21/CC**

Caravan Park & Country Club, Ogwen Bank,

Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad:** Gwrthodwyd

**C24/0540/13/TC**

Wenmar, Bron Arfon Ffordd Llwyn Bleddyn, Rachub
Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer parhau i ddefnyddio tir ar gyfer storio deunyddiau adeiladu peiriannau a cherbydau; paratoi elfennau adeiledig ac ardal gweithdy
**Penderfyniad:** Caniatawyd (TC yn unig)

**C24/0731/13/LL**

Blodau Hyfryd, 7 Rhes Victoria, Bethesda
Newid defnydd siop bresennol yn fflat un ystafell wely.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C24/0809/13/DT**

36 Glanogwen, Bethesda
Dymchwel estyniad unllawr ochr presennol, a chodi estyniad unllawr ochr newydd.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0846/13/DT**

Ivy Cottage, 13 Penygraig, Bethesda
Cais i gadw Pwmp Gwres Aer yng nghefn yr eiddo
**Penderfyniad:** ar y gweill.

| | |
|---|---|
| **C24/0827/13/LL** | Stryd Goronwy, Bethesda<br>Creu ffordd fynediad i ganiatáu parcio oddi ar y ffordd i 11 o geir.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C24/0817/13/LL** | Ysgol Gynradd Llanllechid<br>Estyniad un llawr 2 ystafell ddosbarth a gwaith allanol cysylltiedig i Ysgol Llanllechid / A single storey 2 classroom extension and associated external works to the existing Ysgol Llanllechid<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gyda amodau. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C24/0903/13/DT** | Bwthyn Wiwer, 93 Ffordd Carneddi, Carneddi<br>Dymchwel estyniad unllawr presennol i gefn yr eiddo. Codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo a chodi lefel yr uchder to presennol.<br>**Penderfyniad:** Dim sylw. |

**12. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £93.85 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £41.38 |
| John Wyn Jones | Cyflog Tachwedd 2024 | £396.73 |
| CThEM | TWE Tachwedd 2024 | £99.00 |
| Colin Jackson | Ail doriad Llwybrau | £2145.00 |
| Colin Jackson | Toriadau ychwanegol mis Awst | £230.00 |
| Cyngor Gwynedd | Cytundeb Lefel Gwasanaeth CCTV | £5120.00 |

**13. Crynodeb Llais Ogwan**

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Ymgynghoriad Parcio
- Cynnig i Gymeradwyo Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg
- Cefnogi galwad Cyngor Gwynedd i wneud Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc